Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Abergwaun, Wdig a`r Fro

**Portacabin**

**Sladeway**

**Abergwaun**

**SA65 9NY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Abergwaun Wdig a`r Fro mewn portacaban ar faes ysgol Glannau Gwaun yn Abergwaun. Ar hyn o bryd mae 18 o blant ar y gofrestr o`r oedran 2½ i 4 oed, ond nid oes mwy na 16 o blant yn mynychu ar unrhyw fore. Mae 7 o blant sy`n 3 oed ac ariennir 6 ohonynt.

Daw`r plant sy`n mynychu`r Cylch o Abergwaun a`r ardal gyfagos – does neb yn dod o gefndir a ystyrir o dan anfantais gymdeithasol neu economaidd. Mae`r ardal yn dref glan môr Gymreig gyda phentrefi gwledig o`i chwmpas ac yn agos at Wdig sef terfynfa`r fferi o Iwerddon.

Yn ieithyddol, ychydig iawn sy`n dod o gefndir lle siaredir Cymraeg yn bennaf. Daw neb o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae pob un yn siarad Saesneg. Mae`r Cylch yn medru derbyn plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac wedi gwneud yn y gorffennol ond nid oes un o`r plant yn y cohort cyfredol wedi eu nodi ag anghenion tebyg.

Daw`r plant i`r lleoliad yn 2½ oed a symud i``r cam nesaf yn eu haddysg yn 3½ neu 4 oed yn dibynnu ar eu dewis o ysgol.

Mae`r cylch wedi`i leoli ar un ochr o`r ysgol gynradd leol a cheir mynediad drwy faes parcio`r ysgol. Mae`r man wedi`i ffensio gyda man chwarae â llawr caled a phorfa llethrog o`i gwmpas. Mae sied bren tu allan lle mae teganau`r plant yn cael eu storio. Mae llwybr bren ar lethr yn arwain at fynediad i`r Cylch – mae`r drws allanol diogel yn arwain at gyntedd bach. Dyma ardal sy`n cael ei defnyddio`n dda gan ddarparu cyfleusterau hongian cotiau, toiledau priodol eu maint ar gyfer y plant, ardal chwarae bychan a chyfleusterau hysbysfwrdd.

Mae carped yn y prif ystafell sy`n cael ei defnyddio gan y Cylch, ac mae`r ystafell wedi`i haddurno`n hyfryd gydag esiamplau o waith y plant. Mae wedi gwahaniaethu`n briodol i ardaloedd o weithgareddau yn ôl gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddi adnoddau digonol ac mae`r adnoddau ar y cyfan yn hygyrch i`r plant. Mewn un cornel mae ardal y gegin sydd wedi`i gwahanu gan giatiau - defnyddir ar gyfer paratoi bwyd.

Mae`r arweinydd presennol sydd wedi gweithio yn y Cylch am ryw 7 mlynedd wedi bod yn ei swydd fel arweinydd ers Ionawr 2011. Mae dau aelod o staff yn ei chynorthwyo.

Mae`r Cylch wedi cael ei gofrestru`n wreiddiol yn 2004 ac wedi`i arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2009. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig. Mae`n aelod o Fudiad Ysgolion Meithrin ac wedi ennill statws “Meithrinfa Rhagorol” yn y flwyddyn 2007.

Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

<u>Nodweddion da</u>

- Mae`r holl blant yn dangos cynnydd ac yn cyflawni`n dda yn enwedig yn eu gallu yn yr iaith Gymraeg.
- Mae`r staff yn fodelau rôl da, yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn cymryd pob cyfle i annog y plant i siarad yr iaith.
- Mae`r plant yn derbyn pob gofal a chefnogaeth ac mae`r Cylch yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn llwyddiannus iawn.
- Mae`r Cylch yn gynhwysol ac mae gan yr holl blant gyfleoedd cyfartal.
- Mae`r gweithdrefnau diogelu yn dda ac mae`r holl blant yn rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.
- Caiff adnoddau eu defnyddio`n dda i gefnogi`r dysgu.

### Rhagolygon gwella

- Mae`r arweinydd, yn yr amser byr ers iddi dderbyn yr arweinyddiaeth, wedi arfarnu`r ddarpariaeth gyfredol a nodi meysydd i`w gwella.
- Mae cynllun gwella`r lleoliad wedi nodi meysydd realistig i`w gwella a`r goblygiadau yn nhermau staffio a chostau.
- Mae`r meysydd i`w gwella`n canolbwyntio`n glir ar wella darpariaeth ar gyfer y plant.
- Mae`r staff yn cyd-weithio`n dda ac yn barod i dderbyn newid gan nodi`r hyfforddiant sydd ei angen.
- Mae gan y staff gofnod da o fynychu cyrsiau priodol a gweithredu syniadau i wella ansawdd yr addysg ar gyfer y plant.
- Mae`r pwyllgor rheoli yn cael ei hysbysu`n dda ac maent yn gefnogol o`r Cylch.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio`i weithdrefnau cynllunio er mwyn sicrhau bod y rhaglen ddysgu yn adlewyrchu gofynion y Cyfnod Sylfaen a bod y cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

A2 sicrhau bod cyd-bwysedd da yn yr addysgu rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plentyn a`u cyfeirio gan ymarferwyr.

A3 datblygu ymhellach y strategaethau i ddatblygu dysgu annibynnol y plant, eu medrau gwneud penderfyniadau a chymryd cyfrifoldeb.

A4 datblygu gweithdrefnau asesu priodol sy`n cofnodi cyflawniadau`r plant yn glir a defnyddio`r canlyniadau yn y cynllunio i sicrhau bod tasgau yn cyfateb yn dda i anghenion a chyflawniad blaenorol y plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y Cylch yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro`r cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig yn eu dysgu. Mae`r rhan fwyaf o blant yn gweithio`n ddiwyd am gyfnodau rhesymol o amser gan ddyfalbarhau ar dasgau sy`n eu diddori.

Mae gan yr holl blant fedrau da a datblygol o ran eu medrau cyfathrebu. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn medru deal cwestiynau a chyfarwyddiadau sylfaenol ond yn fwy amharod i siarad Cymraeg. Fodd bynnag, wrth eu hannog, maent yn gallu ymateb i gwestiynau cyfarwydd ac yn gwybod y cyfieithiad Cymreig o eiriau cyfarwydd fel lliwiau a rhifau.

Mae gan y mwyafrif o`r plant fedrau gwrando da fel wrth wrando ar stori – fodd bynnag, mae gan rai o`r plant ieuangach rychwant sylw cyfyngedig.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dangos diidordeb mewn llyfrau, eu dal fel darllenwyr a throi`r tudalennau yn briodol. Maent yn adnabod rhai o`r cymeriadau yn y storïau sy`n gyfarwydd iddynt. Mae`r plant hŷn yn arbrofi gyda gwneud marciau ac mae`r fwy abl yn dechrau tros-ysgrifennu fel dros eu henwau.

Drwyddi draw, mae`r Cylch yn datblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o`r plant fedrau da mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae llawer yn medru cyfrif i 5 a rhai i 10 ac ymhellach. Mae llawer yn dangos rheolaeth dda o`r lygoden gyfrifiadurol ac yn dechrau deall bod teganau rhaglenadwy yn ymateb i`w gorchmynion. Drwyddi draw, mae`u medrau creadigol a`u gwybodaeth o`r byd o`u cwmpas yn dda, fel mae eu datblygiad corfforol.

**Lles : Da**

Mae gan y rhan fwyaf o`r plant ddealltwriaeth briodol o sut gallant gadw`n iach. Maen nhw`n gwybod pryd mae`n bwysig i olchi eu dwylo a gwna lawer ohonynt heb anogaeth. Mae`r trafodaethau mae`r plant yn eu cael i benderfynu ar ba ffrwythau i`w cael fel rhan o`u byrbryd yr wythnos ddilynol yn arbenning o werthfawr. Gwna hyn gyfraniad da at ddealltwriaeth y plant o fwyta`n iach.

Mae gan yr holl blant hen ddigon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol egnïol pan maent yn chwarae tu allan.

Mae`r holl blant yn mwynhau dysgu ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a osodir ar eu cyfer yn syth ar ôl cyrraedd yn y bore. Ar y cyfan, mae ymddygiad yn dda ac mae`r plant yn ymateb yn brydlon i gyfarwyddiadau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael cyfleoedd digonol i ddewis a gwneud penderfyniadau, i weithio`n annibynnol, i gymryd cyfrifoldeb ac ar adegau eraill i weithio gyda`i gilydd mewn grwpiau bach heb oruchwyliaeth oedolyn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd yn seiliedig ar thema tymhorol. Mae cynlluniau wythnosol yn cael eu cynhyrchu yn barod i`r wythnos sydd i ddod ar draws y chwe maes dysgu a nodir yn neilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Mae`r cynllunio yn hyblyg ac mae`r gweithgareddau yn diddori`r plant ac yn annog dysgu`r plant yn llwyddiannus. Mae`r plant yn caffael amrywiaeth dda o fedrau gan gynnwys medrau meddwl. Mae archwiliad manwl o waith y plant yn awgrymu bod y plant, ar y cyfan, yn dangos cynnydd tuag at ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen ond nid oes system mewn lle i sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu rhaglen ddysgu`r Cyfnod Sylfaen yn llawn nac yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol. Yn ogystal, nid yw`r cynllunio`n sicrhau dilyniant a pharhad mewn dysgu.

Mae`r gweithgareddau dysgu a gynllunir yn darparu cyfleoedd i`r plant ddod yn ddysgwyr hyderus gan eu bod yn cael eu cefnogi`n dda gan oedolion, ond mae`r cyfleoedd i`r plant weithio`n annibynnol yn fwy cyfyngedig. Mae`r plant yn cael eu hannog yn briodol i ddefnyddio eu medrau creadigol gan ddefnyddio amrywiaeth dda o adnoddau. Mae`r plant yn mwynhau eu gwaith creadigol ac yn canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau arwyddocaol o amser. Mae`r plant yn mwynhau eu cyfnodau tu

allan gan ddangos diddordeb a hyder mewn ystod o weithgareddau corfforol. Caiff y plant gyfleoedd hefyd i edrych ar bethau byw, gan gynnwys anifeiliaid ifanc a phlanhigion gan ddysgu am yr angen i ofalu amdanynt.

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu`r iaith Gymraeg yn dda. Mae`r oedolion yn fodelau rôl da ac anogir y plant i ddefnyddio`r iaith yn eu dysgu. Caiff y dimensiwn Cymrieg amlygrwydd priodol drwy ganeuon Cymreig ac yn enwedig drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi sy`n helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru.

Hefyd, mae`r plant yn dysgu am ddathliadau eraill fel Diwali ac am Ŵyl y Cysegriad sy`n eu dysgu am ddiwylliannau eraill.

Mae ail-gylchu papur a thyfu hadau a bylbiau hefyd yn eu cyflwyno i`r syniadau o gynaladwyedd ac ail-gylchu. Mae ymweliadau â`r ardal leol, fel yr orsaf dân, yn helpu plant i ddeall y rolau sydd gan bobl yn eu cymdeithas leol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o`r holl blant ac yn sensitif i`w hanghenion unigol. Caiff ymddygiad y plant eu rheoli`n effeithiol gan ddefnyddio strategaethau positif y mae`r plant yn ymateb yn dda iddynt. Mae`r staff yn brofiadol iawn mewn gofal plant ac yn gyfarwydd â datblygiad plant. Maent yn ymateb yn hyblyg i ofynion gwahanol blant pa beth bynnag yw eu hanghenion a`u cefndir. Yn y gorffennol mae hyn wedi cynnwys plant sydd wedi`u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae 2 o`r staff wedi dysgu Cymraeg yn ddiweddar ac yn awr yn fodelau rôl da. Defnyddir cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl y plant a iaith.

Mae ystod addas ac amrywiol o weithgareddau yn cael eu cynllunio ar gyfer pob sesiwn gan gynnwys gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio gan oedolion sydd yn werthfawr iawn, fel defnyddio tegan cyfrifiadurol a datblygu medrau cyfrifiadurol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oes digon o weithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a fyddai`n annog plant i wneud penderfyniadau, datblygu eu hannibynniaeth a`u hunan-hyder i fynd i`r afael â syniadau newydd.

Gan fod y staff wedi`u cynnwys yn y cynllunio, maen nhw`n deall eu rolau yn dda iawn ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg.

Asesir plant yn rheolaidd gan gofnodi`r canlyniadau. Caiff rhain eu casglu i ffeil gyflawniad (Dyma fi) sydd ar gael i rieni ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff rhieni hefyd samplau o waith y plant ac mae hyn, ynghyd â chyswllt rheolaidd â`r staff yn galluogi rhieni i fod yn ymwybodol iawn o gynnydd eu plant. Er bod staff yn ymwybodol iawn o allu`r plant, nid yw deilliannau`r asesu yn cael eu defnyddio wrth gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol er mwyn sicrhau fod tasgau yn diwallu gofynion y plant ac yn canolbwyntio`n dda ar y camau nesaf ar gyfer dygsu`r plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r Cylch yn llwyddiannus iawn yn ei hyrwyddiad o iechyd a lles plant. Mae`r cwricwlwm yn eu darparu â phrofiadau dysgu da gan gynnyws ymweliadau â`r gymuned a astudiaethau o ffyrdd o fyw a diwylliannau eraill, fel yn ystod Diwali, Gŵyl y Golau. Mae`r plant wedi gweld anifieliaid bach, fel cywion ac ŵyn bach sy`n ymestyn eu synnwyr o syndod a ryfeddod yn ogystal â datblygu agwedd ofalgar tuag at anifeiliaid bach.

Mae gweithgareddau dyddiol y Cylch yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a gwirionedd ac yn galluogi`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir.

Mae strategaethau ymddygiad positif y Cylch, y cyfartaledd a`r tegwch yn sefydlu fframwaith o ymddygiad da i`r plant. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i`r plant ddangos blaengaredd a chymryd cyfrifoldeb.

Darperir cyfleoedd da i`r plant ddatblygu eu medrau creadigol. Drwyddi draw, mae`r Cylch yn llwyddo i ddarparu sylfaen dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.

Defnyddir gwasanaethau arbenigol yn dda yn ôl yr angen. Mae`r Cylch yn wyliadwrus wrth arfarnu ac adnabod unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac er nad oes unrhyw un o`r cohort cyfredol ag anghenion tebyg, mae`r plant sydd wedi`u nodi yn y gorffennol âg ADY wedi cael cefnogaeth dda gyda`r Cylch a hefyd gydag asiantaethau proffesiynol ac arbenigol allanol. Yn yr achosion hyn, mae`r rhieni wedi cael eu cynnwys yn llawn.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar ran diogelu plant. Yr arweinydd yw`r person a enwir â chyfrifoldeb am ddelio ag amddiffyn plant. Mae`r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ac mae`r gweithdrefnau a mabwysiadur gan y Cylch yn adlewyrchu “Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008”.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae natur cyfeillgar a chynhwysol y lleoliad yn hyrwyddo ethos dda iawn lle mae`r plant yn teimlo eu bod nhw`n cael eu gwerthfawrogi fel unigolion. Mae gan yr holl blant hawl gyfartal a llawn i`r cwricwlwm.

Mae`r staff yn trin plant â pharch ac fel canlyniad maen nhw`n gwerthfawrogi a pharchu`r staff. Mae agwedd oddefgar yn treiddio trwy`r Cylch sy`n sicrhau bod y staff a`r plant yn rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch ac yn rhydd o unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol neu ffafriaeth.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau nad oes yr un plentyn, pa beth bynnag bo`u cefndir neu anabledd yn dioddef o driniaeth llai ffafriol. Mae`r Cylch yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a thrwyddi draw mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn nodwedd nodedig a da o`r Cylch.

Mae gan y Cylch ddigon o staff sydd â chymwysterau a phrofiad priodol. Defnyddir adnoddau digonol yn briodol ac maent yn hygyrch i`r plant ac yn diwallu anghenion cwrciwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r adeiladau mewn cyflwr da, yn gynnes ac yn groesawgar i`r plant ac yn cael eu defnyddio`n dda.

Mae`r tu allan yn amgylchedd diogel i`r plant, yn hawdd i`w cyrraedd ac yn darparu`r plant ag arwynebedd caled a mannau o borfa. Mae`r Cylch yn y dref sy`n darparu mynediad hawdd i`r siopau a`r cyfleusterau lleol.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r staff yn cyd-weithio`n dda, yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn effeithlon. Mae synnwyr o bwrpas yn amlwg sy`n cyfeirio at ddarparu`r profiadau dysgu gorau posibl ar gyfer y plant. Mae`r holl staff yn rhannu amcanion, gwerthoedd a nodau sy`n hyrwyddo ethos bositif a disgwyliadau uchel o`r plant. Mae`r amcanion yn cael eu gwireddu yn ymarferol.

Mae`r staff yn barod i dderbyn newid ac wedi mynychu hyfforddiant rheolaidd sydd wedi eu cadw`n hysbys o ddatblygiadau diweddar. Pan mae un aelod o staff yn unig yn medru mynychu cyrsiau, mae`r wybodaeth yn cael ei rhannu a`i thrafod. Mae`r holl staff yn cael eu cynnwys yn llawn yn y cynllunio ac yn cyfrannu`n dda at y rhaglen ddysgu.

Mae cysylltiadau da iawn ac effeithiol wedi`u sefydlu gyda rhieni a gofalwyr sy`n eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth dda o`u rolau ac yn gefnogol iawn o`r Cylch. Maent yn cael eu hysbysu`n dda am berfformiad y lleoliad ac yn gwerthfawrogi cyfraniad y staff i lwyddiant y Cylch. Mae`r pwyllgor rheoli yn cymryd ystyriaeth briodol o ddeddfwriaeth berthnasol gan fodloni eu cyfrifoldebau cyfreithiol.

Mae`r Cylch yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae wedi cymryd ystyriaeth o fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys y cyfarwyddyd ar ofal dydd sesiynol, deilliannau`r Cyfnod Sylfaen a chyngor ar fwyta`n iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae`r lleoliad yn hunanarfarnol ac wedi nodi, yn ei "ddogfen hunan-arfarnu", gryfderau`r ddarpariaeth fel ei lwyddiant wrth ddatblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg a`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu lles y plant. Mae`r arolygiad cyfredol yn cadarnhau hyn. Mae "cynllun gwella`r lleoliad" yn nodi meysydd i`w gwella sy`n realistig, gan gynnwys datblygu`r cwricwlwm a darparu adnoddau i gefnogi mentrau

o`r fath. Mae`r holl staff wedi bod yn rhan o`r hunan-arfarnu a datblygiad “cynllun gwella`r lleoliad”. Mae meysydd i`w gwella wedi eu blaenoriaethu. Er bydd newidiadau i`r cwricwlwm yn golygu gall y plant elwa fel canlyniad, nid yw`r cynlluniau wedi cael effaith ar y cwricwlwm eto gan mai dim ond ers Ionawr 2011 mae`r arweinydd cyfredol wedi bod yn ei swydd. Fel canlyniad, nid yw`r strategaethau gwella wedi cael eu gweithredu`n llawn eto.

Mae`r holl staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol perthnasol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y cwricwlwm, ar gynnydd a lles y plant. Mae cyfleoedd eraill wedi eu darparu i`r staff ymweld â lleoliadau eraill yn yr ardal.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae`r Cylch wedi sefydlu partneriaeth dda gyda rhieni a gofalwyr sy`n seiliedig ar hyder a chyfathrebu clir. Mae`n hawdd i`r holl rieni a gofalwyr fynd at y staff wrth ddod â`u plant yn y bore ac wrth eu casglu amser cinio. Mae hyn yn caniatáu cyfnewid rhydd o wybodaeth a chyfle i ddelio ag unrhyw faterion sy`n codi. Yn yr holiaduron cyn-arolygiad a mewn trafodaethau yn ystod yr arolygiad mynegodd rhieni eu boddhad llwyr â`r Cylch. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd eu plant, pa mor dda mae`r plant yn caffael yr iaith Gymraeg a`r paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Yn nhermau datblygiad cymdeithasol y plant, adroddodd rhieni bod eu plant yn mwynhau`u hamser yn y Cylch, pa mor dda maen nhw wedi setlo, a`r parch a ddangosir tuag at y plant.

Roedd y rhieni yn hapus bod y Cylch yn amgylchedd diogel. Dywedodd rhieni hefyd ei fod yn hawdd fynd at y staff. Mae trosglwyddiad y plant i`r cam nesaf yn eu haddysg yn cael ei hyrwyddo gan ymweliadau â`r ysgolion cynradd sy`n derbyn y plant a thrwy gwrdd â`r athrawon.

Mae`r Cylch yn gweithio`n agos â`r awdurdod lleol ac yn enwedig yr athrawon ymgynghorol. Mae`r cydweithredu yma wedi bod yn effeithiol ac yn darparu`r Cylch â syniadau yn ogystal â chyngor defnyddiol. Hefyd, mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn darparu cefnogaeth ddefnyddiol ac mae`r Cylch yn gwneud defnydd o`i bolisïau.

Mae`r Cylch wedi ennill statws “Cylch Rhagorol” gyda Mudiad Ysgolion Meithrin.

## Rheoli adnoddau: Da

Mae gan y Cylch adnoddau digonol ac fe`u defnyddir yn briodol i gefnogi`r cwricwlwm. Mae`r adnoddau yn hawdd i`r plant fynd atynt ond yn cael eu gosod ar gyfer y plant fel arfer yn barod i`r gweithgareddau sydd wedi`u cynllunio. Mae`r cynllunio ar gyfer gwella yn cynnwys nodi anghenion o ran adnoddau yn y dyfodol.

Mae`r tu allan yn amgylchedd diogel a deniadol ar gyfer y plant. Mae gan y Cylch ddigon o gyflenwad o deganau i`w defnyddio yn yr awyr agored. Mae`r gweithgareddau yn canolbwyntio`n dda ar ddatblygu medrau`r plant ar draws y cwricwlwm.

Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd pump holiadur eu dychwelyd.

Roedd canlyniadau`r holiaduron cyn-arolygiad a thrafodaeth gyda sampl o rieni yn ystod yr arolygiad yn nodi eu cefnogaeth gref o`r Cylch.

Roedd canlyniadau`r holiaduron yn dangos bod cytuno cryf ynglŷn â materion cymdeithasol fel mwynhad y plant, diogelwch y plant a pha mor dda roed y plant wedi setlo i mewn.

Yn addysgiadol, roedd rhieni wedi mynegi`r barnau bod eu plant yn gwneud cynnydd da, yn datblygu eu gallu yn yr iaith Gymraeg ac yn barod iawn ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Roedd rhieni yn meddwl bod y Cylch yn cael ei redeg yn dda, ei bod hi`n hawdd mynd at y staff, bod yr addysgu yn dda a bod y plant yn ddiogel yn y Cylch.

Drwyddi draw, mae`r rhieni yn cytuno`n gryf â`r datganiad sy`n nodi boddhad â`r lleoliad.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae`r holl blant yn hapus yn y Cylch. Maen nhw`n dangos eu brwdfrydedd wrth gyrraedd ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a osodir iddynt yn fuan. Wrth sgwrsio, dywedodd y plant eu bod yn mwynhau bod yn y Cylch a bod ganddynt lawer i`w wneud.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)